# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)32-09**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth, 1 Rhagfyr 2009

**Amser:** 08.30

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod Llawr 4, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, y Llywydd (Cadeirydd)

Carl Sargeant, Prif Chwip

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

Alun Cairns, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth

Sulafa Halstead, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad

Anna Daniel, Clerc y Pwyllgor Busnes

Marc Wyn Jones, Gwasanaethau'r Siambr

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

1.1 Dywedodd y Llywydd bod ymddiheuriadau am absenoldeb wedi dod i law gan Arweinydd y Tŷ, a chroesawodd Carl Sargeant, a oedd yn dirprwyo ar ei ran yn unol â Rheol Sefydlog 10.42.

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)31-09 (cofnodion drafft) - Dydd Mawrth, 24 Tachwedd 2009**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu'n barod i'w cyhoeddi.

**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)32-09(p1)**

3.1 Dywedodd y Prif Chwip y byddai datganiad y Dirprwy Weinidog dros Dai am ddigartrefedd, a drefnwyd ar gyfer dydd Mawrth, yn cael ei ohirio tan 12 Ionawr 2010.

3.2 Dywedodd y Prif Chwip y byddai'r datganiadau canlynol yn cael eu gwneud yn ystod Cyfarfodydd Llawn:

Datganiad deddfwriaethol gan y Dirprwy Weinidog dros Dai ar Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai a Llywodraeth Leol) 2010, yn ystod Cyfarfod Llawn dydd Mawrth; a

Datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn ystod Cyfarfod Llawn dydd Mercher.

3.3 Cytunodd y Pwyllgor na ddylai'r Cyfnod Pleidleisio ddigwydd cyn 5pm ddydd Mawrth na dydd Mercher.

3.4 Nododd y Pwyllgor drefn busnes ar gyfer 1 a 2 Rhagfyr 2009.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)32-09(p2)**

3.5 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)32-09(p3)**

3.6 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.7 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**4. Deddfwriaeth**

**Papur eglurhaol gan y Gweinidog ar Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai a Llywodraeth Leol) 2010 - BC(3)32-09(p4a) ac amserlen ddarluniadol - BC(3)32-09(p4b)**

4.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod papur ar Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai a Llywodraeth Leol) 2010. Cytunodd y Pwyllgor i gyfeirio'r Gorchymyn at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, gan nodi 29 Ionawr 2010 fel dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad.

**5. Pwyllgorau**

**Cais gan y Pwyllgor Cynaliadwyedd i gynnal cyfarfod Pwyllgor ffurfiol ar 11 Ionawr 2010 - BC(3)32-09(p5)**

5.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor Busnes gais gan y Pwyllgor Cynaliadwyedd i gynnal cyfarfod ychwanegol ddydd Llun, 11 Ionawr 2010 am 4.30pm, er mwyn craffu ar ddatganiadau polisi cenedlaethol.

**Cais gan yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i gynnal cyfarfod ffurfiol y tu allan i ystâd y Cynulliad ym Merthyr Tudful - BC(3)32-09(p6)**

5.2 Cymeradwyodd y Pwyllgor Busnes gais gan yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i ymweld â lladd-dy Sant Merryn ym Merthyr Tudful ddydd Llun 25 Ionawr, ac wedyn i gynnal cyfarfod ffurfiol yn y prynhawn fel rhan o'i ymchwiliad i mewn i les anifeiliaid a hylendid cig mewn lladd-dai yng Nghymru.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**